GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Tîm Amddiffyn Iechyd
Health Protection Team
Ffôn/Tel: 0300 00 300 32
Ebost/Email: aware@wales.nhs.uk

Gwefan: www.iechydcyhoedduscymru.org
Web: www.phw.nhs.wales

11/05/2026

Annwyl Gydweithwyr,

Re :Ymweliadau fferm a chyswllt â anifeiliaid

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion sydd wedi'u cadarnhau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig ag ymweliadau â ffermydd, atyniadau anifeiliaid ar gyfer ymwelwyr, a chysylltiad ag anifeiliaid mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant. Mae'r rhain yn cynnwys brigiadau o achosion ac achosion unigol o salwch yn y stumog. Mae llawer o'r afiechydon hyn yn gysylltiedig â chyswllt agos a hirfaith ag anifeiliaid, baw anifeiliaid, a deunydd gorwedd halogedig. Mae rhai achosion wedi digwydd ar ôl cwtsio anifeiliaid newydd-anedig y tu mewn i gorlannau, cyffwrdd ag anifeiliaid sy'n amlwg yn fudr, bwyta bwyd yn agos at anifeiliaid ac mewn mannau lle ceir mynediad gwael at gyfleusterau golchi dwylo priodol.

Gall nifer o germau niweidiol gael eu trosglwyddo o anifeiliaid i bobl yn y lleoliadau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys E. coli, Cryptosporidiwm, Salmonela, a Campylobacter. Gall rhai o'r heintiau hyn achosi salwch difrifol ac, mewn achosion anghyffredin, gallant fod yn angheuol. Mae plant ifanc, pobl hŷn, a'r rhai â systemau imiwnedd gwannach mewn mwy o berygl. Dim ond nifer fach o'r germau hyn sydd eu hangen i achosi haint.

Er mwyn helpu i leihau'r risg o haint, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn argymell dilyn y ddogfen ganllaw **"Diogelu Iechyd mewn Lleoliadau Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys Addysg)"**, sydd ar gael yn:
https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwasanaeth-ymateb-aciwt-cymru-gyfan-aware-y-tim-diogelu-iechyd/cyngor-ac-arweiniad-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-cyn-ysgol-ac-addysgol/diogelu-iechyd-mewn-lleoliadau-plant-a-phobl-ifanc-gan-gynnwys-addysg-2025-pdf/?ts=1778592061251
Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i wella ymwybyddiaeth, asesu risgiau, a rhoi mesurau diogel ar waith pan fydd plant yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid. Mae gwybodaeth berthnasol i'w gweld ar dudalennau 24–26 a 56–58.
Diolch am eich cydweithrediad mewn perthynas â'r mater hwn.
Cofion gorau,

Darren Beynon
Ymarferydd Arweiniol ar gyfer Diogelu Iechyd
Tîm Diogelu Iechyd
Iechyd Cyhoeddus Cymru

**South & East Office**
4th Floor
2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

**Mid & West Office**
Matrix House
Northern Boulevard
Swansea Enterprise Park
Swansea SA6 8DP

**North Wales Office**
Seasons House
St Davids Park
Deeside
CH5 3YE

**Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, ac ni fydd hynny'n arwain at oedi.**
**You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without this causing delay.**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Tîm Amddiffyn Iechyd
Health Protection Team
Ffôn/Tel: 0300 00 300 32
Ebost/Email: aware@wales.nhs.uk

Gwefan: www.iechydcyhoedduscymru.org
Web: www.phw.nhs.wales

11/05/2026

Dear Colleagues,

Re: Farm visits and Animal contacts

Public Health Wales has seen an increase in confirmed cases of infectious diseases linked to visits to farms, animal visitor attractions, and contact with animals within schools and childcare settings. These include both outbreaks and individual cases of stomach illness. Many of these illnesses are linked to close and prolonged contact with animals, animal faeces, and contaminated bedding. Some cases have occurred after cuddling newborn animals inside pens, touching animals that are visibly dirty, eating food in a close proximity to animals and where there is poor access to proper hand-washing facilities.

Several harmful germs can be passed from animals to people in these settings. These include E. coli, Cryptosporidium, Salmonella, and Campylobacter. Some of these infections can cause serious illness and, in rare cases, can be fatal. Young children, older people, and those with weaker immune systems are at higher risk. Only a small number of these germs are needed to cause infection.

To help reduce the risk of infection, Public Health Wales recommends following the guidance document **"Health protection in Children and Young People settings (including Education)"**, available at:
phw.nhs.wales/services-and-teams/aware-health-protection-team/guidance-for-childcare-preschool-and-educational-settings/health-protection-in-children-and-young-people-settings-including-education-2025-pdf/?ts=1778157628743

This guidance explains how to improve awareness, assess risks, and put safe measures in place when children are in contact with animals. Relevant information can be found on pages 24–26 and 56–58.

Thank you for your cooperation on this matter

Kind regards,

Darren Beynon
Lead practitioner for Health Protection
The Health Protection Team
Public Health Wales

**South & East Office**
4th Floor
2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

**Mid & West Office**
Matrix House
Northern Boulevard
Swansea Enterprise Park
Swansea SA6 8DP

**North Wales Office**
Seasons House
St Davids Park
Deeside
CH5 3YE

**Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, ac ni fydd hynny'n arwain at oedi.**
**You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without this causing delay.**